


CYNGOR TREF PORTHMADOG



COFNODION PWYLLGOR EIDDO A DATBLYGU 7 yh nos Fawrth Ionawr 31 2023

Presennol :- Cynghorwyr :- Aled Griffith, Dr Melfyn Edwards, Connor Westwood, Llywelyn Rhys (Cadeirydd) Michael Roberts, Llinos Murphy
Marian Roberts (Clerc)
Y cyhoedd :- John Gareth Roberts

1. Ymddiheuriadau:- Cyng Gwilym Jones

Croesawyd pawb i'r cyfarfod yn aelodau ac yn ymwelwyr a newidwyd trefn y cyfarfod oherwydd bod John Gareth Roberts yn mynychu'r cyfarfod ar ran tenant o Gae Pawb.

5. Cae Pawb

(a) Rhandir 19a

Eglurodd y Clerc fod tenant 19a wedi cael llythyr o rybudd am nad oedd wedi gofalu am ei randir ers misoedd ond iddo gael profedigaeth yn yr wythnosau diwethaf ac na fyddai'n briodol ar hyn o bryd i fynd â'r mater ymhellach o ystyried y sefyllfa drist.

Penderfynwyd :- peidio a gweithredu ymhellach a gadael iddo gael amser i alaru cyn ail gydio yn y gwaith yng Ngae Pawb.

(b) Llythyr o gŵyn

Roedd y Clerc wedi derbyn llythyr gan un o denantiaid Cae Pawb yn cwyno am ymddygiad heriol ac ymosodol tenant arall o Gae Pawb. Roedd yn adrodd iddo drespasu ar ei rhandir; ymddwyn yn ymosodol ar lafar ac yn gorfforol; barcio ei fan i'w hatal rhag gwthio berfa llawn o wrtaith i'w rhandir heb wneud unrhyw ymdrech i symud er mwyn hwyluso'r berfa. Cytunwyd nad oes yr un tenant i fod i deimlo dan fygythiad tra'n garddio yng Ngae Pawb gan mai lle i ymlacio ac i fwynhau heb unrhyw rwystr ydyw. Cytunwyd hefyd y dylai'r Cyngor Tref gefnogi'r sawl sydd wedi dioddef achos fel hyn er mwyn atal ymddygiad tebyg yn y dyfodol gan fod ymddygiad fel hyn yn gwbl annerbyniol. Mae'r mater eisoes wedi cael ei drafod ym Mhwyllgor Cae Pawb a hwythau yn hapus i gyfeirio'r mater i sylw'r Is-Bwyllgor Eiddo. Eglurwyd mai'r drefn arferol am unrhyw anghydfod ynglyn â thenantiaid Cae Pawb yw i'r Clerc yrru llythyr o rybudd am dorri rheolau neu gamymddygiad a mis o râs wedyn cyn bod y cytundeb yn cael ei ddiddymu os na welir gwelliant yn y sefyllfa.

Penderfynwyd :- y byddai'r Clerc yn anfon llythyr o rybudd am yr honiadau o ymddygiad bygythiol ac am dorri rheolau Cae Pawb ac ateb llythyr y sawl sy'n cwyno i'w hysbysu o hyn ac i awgrymu'n garedig iddi siarad gyda Paula Stewart y PCSO er mwyn derbyn cyngor pellach yn ôl cynnig Cyng Llinos Murphy, Cyng Aled Griffith yn eilio.

2. Llwybrau

Cyfeirwyd at gyflwr gwael y llwybr sydd yn rhedeg uwchlaw llwybr Borth y Gest i Llety. Nodwyd mai cyfrifoldeb Cyngor Gwynedd ac nid y Cyngor Tref yw'r llwybr yma a'i fod eisoes wedi ei roi ar raglen cyfarfod 14.2.23.

Penderfynwyd :- y byddai'r Clerc yn anfon copi o restr llwybrau Porthmadog a chopi o fapiau Google o'r llwybrau i aelodau'r Cyngor Tref yn ôl cynnig Cyng Aled Griffith.

Gadawodd John Gareth Roberts y cyfarfod.

3. Cae Bodawen

(a) Penderfynwyd :- defnyddio paent coch a gwyrdd ar gyfer offer chwarae Cae Bodawen. Bydd y Clerc yn hysbysu'r peintar o'r penderfyniad.

Gadawodd y Cadeirydd y cyfarfod

(b) Cyng Aled Griffith – cynnig ysgrifennu i wneud cais i Gyfoeth Naturiol Cymru gael gwared o'r deunydd ddaeth wrth glirio'r Cyt ar Gae Chwarae Bodawen.

Penderfynwyd :- gweithredu ar y cynnig, Cyng Michael Roberts yn eilio. Dychwelodd y Cadeirydd i'r cyfarfod.

(c) Mulch Mats

Roedd y Clerc yn dymuno cofnodi iddi dderbyn 100 o Mulch Mats a 9 sach o Mulch i'w gosod wrth fôn y coed ffrwythau sydd wedi eu plannu ar Gae Bodawen. Maent wedi eu derbyn gan elusen Social Farms and Gardens i gydfynd â'r coed ffrwythau a'r offer garddio.

Penderfynwyd :- gofyn i weddill aelodau'r Cyngor Tref i ddod i helpu'r Clerc i osod y Mulch rhyw fore Sadwrn yn yr wythnosau nesaf.

4. Bryn Coffa

Roedd y Cadeirydd yn dymuno cofnodi diolchiadau'r Cyng Carol Hayes i'r Cyng Michael Roberts am drwsio arwydd ar y safle bws wrth ymyl Bryn Coffa ac yn diolch iddo am ei ymroddiad a'i amser.

6. Llochesi Bws

Penderfynwyd :- y byddai'r Clerc yn anfon copi o restr y llochesi bws i aelodau'r Cyngor Tref yn ôl cynnig Cyng Dr Melfyn Edwards.

7. Cerflun Mr. Madocks

Dim i'w adrodd.

8. Syniadau i ddatblygu'r dref

(a) Penderfynu ar gomisiwn Ffion Gwyn

Awgrymwyd y lleoliadau canlynol ar gyfer comisiwn byrddau gwybodaeth arall gan Ffion Gwyn :-

- Wrth ymyl cerflun Madocks yn edrych allan ar y Traeth a Boston Lodge
- Pencei – yn nodi adeiladau hanesyddol a diddorol yr ardal
- Melin yr Wyddfa
- Garth – yn edrych dros Borthmadog tuag at Cei Balast

Cafwyd cynnig gan Cyng Aled Griffith i osod panorama wedi ei ddylunio ar ddarn o lechen ar lawr wrth ddiwedd platform Rheilffordd Ffestiniog.

Cafwyd cynnig gan Cyng Dr Melfyn Edwards i gomisiynu darn o waith celf neu gerflun i goffau enwogion llenyddol/ diwylliannol Porthmadog i gydfynd â dyfodiad yr Eisteddfod Genedlaethol i'r ardal eleni.

Penderfynwyd :- pasio'r penderfyniadau i'w cymeradwyo gan y Pwyllgor Llawn ar 14.2.23

(b) Cyng Gwilym Jones a Cyng Aled Griffith – Cynnig derbyn rhodd o seddi efo planters blodau gan YGC i'w gosod wrth y llochesi bws ger y Parc.

Cytunwyd bod y syniad yn un da a bod y Cyngor Tref yn ddiolchgar am y cynnig ond fod angen cytuno ar leoliad addas i'r seddi. Trafodwyd y posibilrwydd o osod y seddi yn y Parc neu ar y llain gwag o dir wrth yr harbwr yn hytrach na gorlenwi'r palmant wrth y llochesi bws.

Penderfynwyd :- y byddai'r Clerc yn adrodd yn ôl i'r swyddog perthnasol o YGC i awgrymu hyn.

Daeth y cyfarfod i ben am 19.45.

Marian Roberts (Clerc)

1.2.23